# TAG UG/SAFON UWCH CELF A DYLUNIO
# UNED 1 YMHOLIAD CREADIGOL PERSONOL
# UNED 2 YMCHWILIAD PERSONOL
# UNED 3 ASEINIAD GOSOD YN ALLANOL

## AMCANION ASESU RHESTR GYFEIRIO I ATHRAWON

| | |
|---|---|
| **AA1**<br>**Dealltwriaeth gyd-destunol**<br><br>Datblygu syniadau trwy ymchwiliadau dwys a manwl wedi'u cyfoethogi gan ffynonellau cyd-destunol a ffynonellau eraill, gan amlygu dealltwriaeth ddadansoddol a beirniadol. | Mae'n ymwneud â'r gallu i **ddatblygu syniadau cyd-destunol**, gan wneud hynny trwy **ymchwiliadau dwys** a **manwl**. Dylai'r ymgeiswyr ddangos sut mae **ffynonellau cyd-destunol** a **ffynonellau eraill** wedi **cyfoethogi** eu gwaith a dangos **dealltwriaeth ddadansoddol** a **beirniadol**.<br><br>Nid mater syml o astudio ffynonellau cyd-destunol yw hyn, ond hefyd o ddangos **dealltwriaeth berthnasol** a'r **dylanwad** mae astudiaeth o'r fath wedi'i gael ar eu **ffordd hwy o wneud y gwaith**.<br><br>Mae sgiliau dadansoddol yn ymwneud ag adnabod y perthnasoedd (e.e. trwy gymharu a chyferbynnu) rhwng gwahanol rannau cyfanwaith cymhleth er mwyn egluro ei gynnwys, ei natur a'i strwythur.<br><br>Y sgiliau allweddol yw **gofyn cwestiynau perthnasol**, **gwahaniaethu** rhwng **yr hyn <u>sy'n</u> berthnasol a'r hyn <u>nad yw'n</u> berthnasol**, **gwahaniaethu** rhwng **gwahanol fathau o wybodaeth** (e.e. bywgraffyddol, disgrifiadol, gwerthusol), **cyflwyno** a **chyfiawnhau safbwyntiau**'n glir, gan roi **rhesymau dilys wedi'u dadlau'n fedrus**. |
| **AA2**<br>**Gwneud creadigol**<br><br>Archwilio a dewis adnoddau, cyfryngau, defnyddiau, technegau a phrosesau priodol, gan adolygu a mireinio syniadau wrth i'r gwaith ddatblygu. | Mae hyn yn ymwneud ag archwilio **adnoddau, defnyddiau a phrosesau'n bwrpasol** a'r gallu i **ddewis rhai priodol**. Wrth i'r gwaith fynd rhagddo, dylai'r ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth o **werthuso/adolygu parhaus**, i benderfynu a oes angen ei newid i'w **wella** neu ei **fireinio**.<br><br>Mae'n gofyn am weithgarwch **llawn dychymyg** i gynhyrchu **canlyniadau gwreiddiol** sy'n berthnasol i **fwriadau**'r dysgwr. Fe'i rhagflaenir fel rheol gan **archwilio ffynonellau symbylol** sy'n debygol o ysgogi syniadau gwreiddiol a gall ddechrau gyda **chofnodi syniadau cychwynnol** a rhoi iddynt siâp a ffurf.<br><br>Gall hyn arwain at **broses o ddatblygu** lle caiff y syniadau cychwynnol eu diffinio'n gliriach a lle daw'r amrywiaeth o ganlyniadau posibl yn fwy amlwg. Dylai **dulliau mynegi addas** gael eu hystyried, gan gynnwys **dewis** sensitif o'r cyfrwng, techneg a graddfa fwyaf addas, cyn ymgymryd â'r **gwireddu terfynol**.<br><br>Gall y cam terfynol gynnwys **mireinio manylion** gan arfer **rheolaeth ofalus** i gynhyrchu **canlyniadau o safon**. Dylid sefydlu **perthnasoedd clir** rhwng **dulliau gweithio a chanlyniadau**. |
| **AA3**<br>**Cofnodi myfyriol**<br><br>Cofnodi syniadau, arsylwadau a mewnwelediadau sy'n berthnasol i'r bwriadau, gan fyfyrio'n feirniadol ar y gwaith a'r cynnydd. | Mae hyn yn ymwneud â **chofnodi**, ar **ffurfiau gweledol** a **ffurfiau eraill**, syniadau, arsylwadau a mewnwelediadau sy'n **berthnasol i'r bwriadau**. Mae'n ymwneud yn anad dim ag **ymchwilio** ac **ymholi** i ffynonellau cyfeirio gweledol a chyffyrddol.<br><br>Wrth i'w hastudiaethau ddatblygu, dylai'r ymgeiswyr amlygu'r gallu i **fyfyrio** ar eu **gwaith** a'u **cynnydd**. Dylent roi sylw i'r ffordd maent hwy'n **casglu, dewis, trefnu** a **chyfathrebu** gwybodaeth weledol a gwybodaeth arall.<br><br>Mae hefyd yn gofyn am dystiolaeth o **ddysgu myfyriol** sy'n cynnwys **cymryd amser i feddwl am eu gwaith** a myfyrio ar **yr hyn y maent hwy wedi'i ddysgu** a'i **adolygu** er mwyn **dwysáu eu dealltwriaeth**. Dylent fynd ati i **chwilio am ystyr** a **phwrpas** yn yr hyn y maent hwy'n ei wneud a **cheisio** a **mynegi safbwyntiau cytbwys**. Mae tystiolaeth o'u gallu i **drosglwyddo dysgu i gyd-destun newydd** yn arbennig o bwysig. |
| **AA4**<br>**Cyflwyno personol**<br><br>Cyflwyno ymateb personol ac ystyrlon sy'n gwireddu bwriadau a, lle bo'n briodol, yn gwneud cysylltiadau rhwng elfennau gweledol ac elfennau eraill. | Mae hyn yn ymwneud â chyflwyno ymatebion sy'n **bersonol** (heb ymyrraeth neb arall), **gwybodus** ac **ystyrlon** (i'r ymgeisydd yn fwy na dim, ond i eraill hefyd). Wrth gyflwyno eu hymatebion, dylent ddangos **canlyniad** eu **dealltwriaeth feirniadol** a **gwneud yn glir** i ba raddau, a thrwy ba foddau, y maent hwy wedi **gwireddu eu bwriadau.**<br><br>Lle bo'n briodol, dylent wneud yn **eglur** y **cysylltiadau rhwng gwahanol rannau'r cyflwyniad**. Mae sgiliau dysgu'n cynnwys **cyflwyno gwaith mewn trefn resymegol** sy'n hawdd ei dilyn, **egluro pwrpas** a **chyd-destun** y gwaith a **chyfleu bwriadau**. Maent hwy hefyd yn cynnwys dyfeisio **ffurf addas ar gyflwyno** sy'n **ateb pwrpas** y gwaith ac yn **ennyn diddordeb cynulleidfa**. |

## TAG UG/SAFON UWCH CELF A DYLUNIO
## UNED 1 YMHOLIAD CREADIGOL PERSONOL
## UNED 2 YMCHWILIAD PERSONOL
## UNED 3 ASEINIAD GOSOD YN ALLANOL

## AMCANION ASESU RHESTR GYFEIRIO I DDYSGWYR

| | Ydw i wedi darparu tystiolaeth sy'n dangos fy mod i'n gallu: | ✓ neu x |
|---|---|---|
| AA1 DEALLTWRIAETH GYD-DESTUNOL | • defnyddio'r cyfeiriadau cyd-destunol a chyfeiriadau eraill rydw i wedi eu dewis i ddatblygu meddyliau a syniadau *newydd;* | |
| | • gwneud ymchwiliadau sy'n *ddwys* a *manwl* ac yn *canolbwyntio* ar wybodaeth sy'n berthnasol i'm hastudiaeth; | |
| | • *gwerthuso* dulliau, ymagweddau, pwrpasau a bwriadau artistiaid/crefftwyr/dylunwyr a *deall* sut mae gwahanol gyd-destunau cynhyrchu'r gwaith yn dylanwadu ar ddehongli ac ystyr; | |
| | • *cymhwyso* dealltwriaeth gyd-destunol mewn ffyrdd sy'n *cyfoethogi fy ffordd fy hun o wneud y gwaith*; | |
| | • *dadansoddi* fy ffynonellau trwy ddarganfod *perthnasoedd* rhwng gwahanol agweddau a *chymharu* a *chyferbynnu*'r rhain; | |
| | • gofyn cwestiynau *perthnasol* a chwilio am atebion *perthnasol*, *gwahaniaethu* rhwng gwahanol fathau o wybodaeth a chyflwyno fy safbwyntiau *ystyriol* fy hun. | |
| AA2 GWNEUD CREADIGOL | • cyfleu ymdeimlad o *bwrpas* wrth archwilio adnoddau, prosesau a'r elfennau gweledol; | |
| | • dewis cyfryngau a thechnegau yn *ofalus* a'u defnyddio'n *briodol* fel eu bod nhw'n ategu fy mwriadau; | |
| | • ymchwilio i ffynonellau symbylol am bosibiliadau *arloesol* a drafftio fy syniadau cychwynnol *yn fedrus;* | |
| | • dogfennu tystiolaeth *gydlynol* am bob cam yn y broses greadigol a sefydlu perthnasoedd clir rhwng dulliau gweithio a chanlyniadau; | |
| | • adolygu fy ngwaith yn rheolaidd i'w *wella* a'i *fireinio* lle mae angen; | |
| | • trin defnyddiau, technegau a phrosesau yn *fedrus* i gynhyrchu canlyniadau o *safon*. | |
| AA3 COFNODI MYFYRIOL | • ymroi fy hun yn *drylwyr* i ddulliau ymchwil ac ymholi cynhyrchiol; | |
| | • casglu, dewis, trefnu a chyfleu ffrwyth fy ymchwil yn *effeithlon*; | |
| | • cofnodi syniadau, arsylwadau a mewnwelediadau yn *effeithiol* yn unol â'm bwriadau; | |
| | • defnyddio amrywiaeth *addas* o ddulliau cofnodi a sgiliau cofnodi *cymwys*; | |
| | • adolygu fy ngwaith a'm cynnydd yn *feddylgar* er mwyn *dwysáu fy nealltwriaeth*; | |
| | • trosglwyddo syniadau a sgiliau i *sefyllfaoedd newydd* a chwilio am *ystyr* a *phwrpas* yn fy astudiaethau. | |
| AA4 CYFLWYNO PERSONOL | • cyflwyno syniadau a chanlyniadau sydd *yn perthyn i mi* ac nid wedi'u dwyn oddi ar bobl eraill; | |
| | • cynhyrchu gwaith sy'n *wybodus* ac sydd ag *ystyr* i mi ac i bobl eraill; | |
| | • *cyfleu* fy mwriadau'n *eglur* a'u *gwireddu'n llwyddiannus*; | |
| | • dangos *dealltwriaeth allweddol* yn natblygiad fy nghanlyniad(au); | |
| | • cyflwyno fy ngwaith mewn *trefn resymegol*, gan wneud cysylltiadau *clir* rhwng y gwahanol rannau lle mae'n briodol; | |
| | • dyfeisio ffurf *briodol* o gyflwyno sy'n *addas i bwrpas* fy ngwaith ac sy'n *denu sylw cynulleidfa*. | |